OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 163 (Cy. 31)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

## Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Chwefror 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a), 11(2) a (3), 12(**1**), 45(1), 54, 83(4) a (5), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**) ac adrannau 174(7) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**4**).

### Diwygio'r Prif Reoliadau

**2.** Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"mae i "adroddiad adolygu darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter's review report*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 30CH(5)(a);";

"mae i "adroddiad darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter's report*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 30(2);";

(**1**) Diwygiwyd adran 12 gan adran 57 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) a chan adran 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**2**) 2002 p. 38; *gweler* y diffiniadau o "regulations", "appropriate Minister" a "the Assembly" yn adran 144(1). Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2014 dccc 4; *gweler* y diffiniad o "rheoliadau" yn adran 197(1).

(**4**) O.S. 2005/1313 (Cy. 95), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"ystyr "Cofrestr Fabwysiadu Cymru" ("*the Adoption Register for Wales*") yw'r gofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am blant sy'n addas i'w mabwysiadu a darpar fabwysiadwyr sy'n addas i fabwysiadu plentyn, sydd wedi ei sefydlu o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**5**) ac a gynhelir ar ran Gweinidogion Cymru;";

"mae i "cynllun asesu darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter assessment plan*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 29;";

"mae i "cynllun cam un darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter stage one plan*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 22;";

"mae i "cynllun paru darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter matching plan*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 31;";

"mae i "darparwr gwasanaethau maethu" ("*fostering services provider*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(**6**);";

"mae i "paratoad ar gyfer mabwysiadu" ("*preparation for adoption*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 24;";

"ystyr "Rheoliadau 2014" ("*the 2014 Regulations*") yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014(**7**);";

(b) yn lle'r diffiniad o "dyfarniad o gymhwyster" rhodder—

"mae i "dyfarniad o gymhwyster" ("*qualifying determination*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 30B(5)(a);".

**4.** Yn rheoliad 16(2) (gofyniad i gael gwybodaeth am deulu'r plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y teulu)), hepgorer "naturiol" ac ar ôl "rieni" mewnosoder "geni".

**5.** Yn rheoliad 17 (gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig)—

(a) ym mharagraff (2C), yn lle "yn (2D)" rhodder "ym mharagraff (2CH)";

(b) yn y testun Cymraeg, ailrifer y paragraff (2D) presennol yn baragraff (2CH) o'r rheoliad hwnnw;

(c) ym mharagraff (2CH)(iii) (fel y'i hailrifwyd), yn lle "naturiol" rhodder "geni".

**6.** Yn nhestun Cymraeg rheoliad 19(1A) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu), yn lle "17(2D)" rhodder "17(2CH)".

**7.** Ar ôl rheoliad 19 mewnosoder—

"**Atgyfeirio at Gofrestr Fabwysiadu Cymru - plant**

**19A.**—(1) Pan fo asiantaeth fabwysiadu—

(a) wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, a

(b) heb nodi darpar fabwysiadwyr penodol y mae'n ystyried lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda hwy,

rhaid i'r asiantaeth ddarparu manylion am y plentyn i'r sefydliad sy'n cynnal Cofrestr Fabwysiadu Cymru i'w cofnodi yn y gofrestr cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis ar ôl y dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(**5**) 2006 p. 32.
(**6**) O.S. 2018/1333 (Cy. 260).
(**7**) O.S. 2014/1795 (Cy. 188), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/48 (Cy. 15) ac O.S. 2019/237 (Cy. 56).

(2) Pan fo asiantaeth fabwysiadu yn dod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r manylion am y plentyn, rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r(**8**) sefydliad sy'n cynnal y gofrestr o'r newidiadau hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Ym mharagraff (1), ystyr "wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu" yw naill ai—

(a) wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu yn unol â chydsyniad rhiant o dan adran 19 o'r Ddeddf, neu

(b) wedi'i hawdurdodi i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoliad a wneir yn unol ag adran 21(1) o'r Ddeddf."

**8.** Yn rheoliad 20(1) (cais i benodi swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS), ar ôl "rhiant neu warcheidwad y plentyn" mewnosoder "yn preswylio yng Nghymru a Lloegr ac".

**9.** Ar ôl rheoliad 20 mewnosoder—

"**Personau sydd wedi'u hawdurdodi i fod yn dyst i gydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu**

**20A.**—(1) Pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswylio y tu allan i Gymru a Lloegr ac yn barod i gydsynio i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf ac, yn ôl y digwydd, i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drefnu i berson awdurdodedig gael ei benodi i fod yn dyst wrth i'r rhiant hwnnw neu'r gwarcheidwad hwnnw gwblhau'r ffurflen cydsynio i leoli neu i fabwysiadu ac anfon at y person hwnnw yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2.

(2) Ystyr "person awdurdodedig" at ddibenion y rheoliad hwn yw mewn perthynas â ffurflen gydsynio a gwblheir—

(a) yn yr Alban, Ynad Heddwch neu Siryf;

(b) yng Ngogledd Iwerddon, Ynad Heddwch;

(c) y tu allan i'r Deyrnas Unedig, unrhyw berson sydd am y tro wedi'i awdurdodi yn ôl y gyfraith yn y man lle y cwblheir y ddogfen i weinyddu llw at unrhyw ddiben barnwrol neu at unrhyw ddiben cyfreithiol arall, swyddog Consylaidd Prydeinig, notari cyhoeddus neu, os yw'r person sy'n cwblhau'r ddogfen yn gwasanaethu yn unrhyw un o luoedd arfog rheolaidd y Goron, swyddog sy'n dal comisiwn mewn unrhyw un o'r lluoedd hynny."

**10.** Yn lle Rhan 4 rhodder—

(**8**) Ystyr "hysbysu", a ddiffinnir yn rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau, yw hysbysu yn ysgrifenedig.

# "RHAN 4

## DYLETSWYDDAU ASIANTAETH FABWYSIADU O RAN DARPAR FABWYSIADYDD

*Cam 1 – y broses cyn asesu*

**Cofrestru diddordeb mewn mabwysiadu**

**21.** Mae rheoliadau 22 i 27 yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo'r asiantaeth wedi hysbysu'r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu mewn cysylltiad â'r person hwnnw.

**Cynllun cam un darpar fabwysiadydd**

**22.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun cam un y darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys y materion canlynol—

(a) gwybodaeth am y cwnsela, yr wybodaeth a'r paratoad ar gyfer mabwysiadu sydd i'w darparu o dan reoliad 24,

(b) y weithdrefn ar gyfer cynnal gwiriadau heddlu o dan reoliad 25,

(c) manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r darpar fabwysiadydd wedi cytuno i ymgymryd ag ef,

(ch) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd ym mroses cam un,

(d) unrhyw amserlenni cymwys,

(dd) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau (gan gynnwys cwyn) o dan Reoliadau 2014, ac

(e) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.

**Cofnod achos darpar fabwysiadydd**

**23.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sefydlu cofnod achos mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ("cofnod achos y darpar fabwysiadydd") a rhoi yn y cofnod achos hwnnw—

(a) cynllun cam un y darpar fabwysiadydd,

(b) yr wybodaeth a'r adroddiadau a gafwyd gan yr asiantaeth yn rhinwedd y Rhan hon,

(c) cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd;

(ch) adroddiad y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar yr adroddiad hwnnw,

(d) y cofnod ysgrifenedig o drafodion y panel mabwysiadu a gynhelir o dan reoliad 30A (a phan fo'n gymwys reoliad 30B(8)), ei argymhelliad, y rhesymau dros yr argymhelliad ac unrhyw gyngor a roddir gan y panel i'r asiantaeth,

(dd) y cofnod o benderfyniad yr asiantaeth o dan reoliad 30B(1), (6) neu yn ôl y digwydd (9),

(e) pan fo'r darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol, argymhelliad y panel adolygu hwnnw,

(f) pan fo'n gymwys, adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd ar yr adroddiad hwnnw,

(ff) cynllun paru'r darpar fabwysiadydd, ac

(g) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall a gafwyd gan yr asiantaeth ac y mae'n ystyried y dylid eu cynnwys neu ei chynnwys yn y cofnod achos hwnnw.

(2) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu ofyn i'r darpar fabwysiadydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y mae'n rhesymol i'r asiantaeth ei gwneud yn ofynnol.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â chwpl, rhaid i'r asesiad o'u haddasrwydd i fabwysiadu plentyn gael ei ystyried ar y cyd a rhaid i'r asiantaeth sefydlu un cofnod achos.

### Gofyniad i ddarparu cwnsela, gwybodaeth a pharatoad ar gyfer mabwysiadu

**24.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

(a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y darpar fabwysiadydd,

(b) mewn achos adran 83(**9**), esbonio i'r darpar fabwysiadydd, a darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y weithdrefn mewn perthynas â mabwysiadu plentyn o'r wlad y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu ohoni a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny,

(c) mewn unrhyw achos arall, esbonio i'r darpar fabwysiadydd, a darparu gwybodaeth ysgrifenedig am y weithdrefn mewn perthynas â lleoli ar gyfer mabwysiadu a mabwysiadu a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny,

(ch) darparu i'r darpar fabwysiadydd unrhyw wybodaeth a deunyddiau hyfforddi sydd ar gael ac sy'n ymwneud â mabwysiadu plentyn, a

(d) gwneud trefniadau i'r darpar fabwysiadydd gael unrhyw baratoad ar gyfer mabwysiadu y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Ym mharagraff (1)(d), mae "paratoad ar gyfer mabwysiadu" yn cynnwys darparu gwybodaeth i'r darpar fabwysiadydd am—

(a) ystod oedran, rhyw, anghenion tebygol a chefndir plant y caiff yr asiantaeth fabwysiadu eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu;

(b) arwyddocâd mabwysiadu i blentyn a theulu'r plentyn,

(c) cyswllt rhwng plentyn a rhiant geni neu warcheidwad, brodyr a chwiorydd a pherthnasau eraill y plentyn pan awdurdodir lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu pan fo wedi'i fabwysiadu,

(ch) y sgiliau sy'n angenrheidiol ar riant mabwysiadol,

(d) safbwynt y plentyn a theulu'r plentyn ar fabwysiadu,

(dd) gweithdrefnau'r asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas ag asesu darpar fabwysiadydd a lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, ac

(e) y weithdrefn mewn perthynas â lleoli ar gyfer mabwysiadu a mabwysiadu.

### Gofyniad i gynnal gwiriadau heddlu

**25.**—(1) Mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 oed neu drosodd, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael

(**9**) Ystyr "achos adran 83", a ddiffinnir yn rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau, yw achos pan fo person yn bwriadu dod â phlentyn, neu beri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig o dan amgylchiadau pan fo adran 83 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (cyfyngiadau ar ddod â phlant i'r Deyrnas Unedig) yn gymwys.

tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**10**) sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno).

(2) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn os yw'r person hwnnw neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd—

(a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd penodedig a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd, neu

(b) wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd o'r fath.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "tramgwydd penodedig" yw—

(a) tramgwydd yn erbyn plentyn;

(b) tramgwydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3;

(c) tramgwydd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**11**) mewn perthynas â nwyddau y gwaherddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau sy'n ymwneud â phornograffi)(**12**) pan oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16 oed;

(ch) unrhyw dramgwydd arall sy'n ymwneud ag anaf corfforol i blentyn, ac eithrio tramgwydd ymosod cyffredin neu guro,

ac mae i'r ymadrodd "tramgwydd yn erbyn plentyn" yr ystyr a roddir i "offence against a child" gan adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(**13**), er gwaethaf diddymu'r ddarpariaeth honno(**14**), ac eithrio nad yw'n cynnwys tramgwydd yn groes i adran 9 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 (gweithgaredd rhywiol gyda phlentyn)(**15**) mewn achos pan oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed a bod y plentyn yn 13 oed neu drosodd ar adeg cyflawni'r tramgwydd.

(4) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried person yn addas i fabwysiadu plentyn os yw'r person hwnnw neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd—

(a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd a bennir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3 a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd, neu wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd o'r fath, neu

(b) yn dod o fewn paragraff 2 neu 3 o Ran 2 o Atodlen 3,

er gwaethaf bod y tramgwyddau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 3 wedi'u diddymu.

(5) Pan fo asiantaeth fabwysiadu yn dod yn ymwybodol bod darpar fabwysiadydd neu aelod o aelwyd y darpar fabwysiadydd yn dod o fewn paragraff (2) neu (4), rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r darpar fabwysiadydd cyn gynted â phosibl na ellir ei ystyried yn addas i fabwysiadu plentyn.

### Gwybodaeth cyn asesu arall

**26.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

(**10**) 1997 p. 50. Mewnosodwyd adran 113B gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15). Mae diwygiadau eraill i Ddeddf yr Heddlu 1997 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) 1979 p. 2.
(**12**) 1876 p. 36.
(**13**) 2000 p. 43.
(**14**) *Gweler* Atodlen 10 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47).
(**15**) 2003 p. 42.

(a) cael yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4,

(b) cael adroddiad ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig am iechyd y darpar fabwysiadydd yn dilyn archwiliad llawn y mae rhaid iddo gynnwys y materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 4 onid yw adroddiad o'r fath wedi'i wneud o fewn 6 mis ar ôl i'r panel ystyried yr achos o dan reoliad 30A a'i fod ar gael i'r asiantaeth,

(c) cael adroddiad ysgrifenedig am bob un o'r cyfweliadau â'r personau a enwebwyd gan y darpar fabwysiadydd i ddarparu geirda personol ar gyfer y darpar fabwysiadydd,

(ch) pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, gael geirda personol gan gyn-briod, cyn-bartner sifil neu gyn-bartner y darpar fabwysiadydd,

(d) pan nad yr awdurdod lleol y mae gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal ydyw, ganfod a oes gan yr awdurdod lleol y mae gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal unrhyw wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn berthnasol i asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu ac os felly gael gan yr awdurdod hwnnw adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r wybodaeth honno, a

(dd) pan fo gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ardal yr awdurdod lleol am lai na deuddeng mis, hefyd ganfod a oes gan yr awdurdod lleol yr oedd gan y darpar fabwysiadydd ei gartref yn ei ardal cyn hynny unrhyw wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn berthnasol i asesiad o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu ac os felly gael gan yr awdurdod hwnnw adroddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r wybodaeth honno.

**Penderfyniad cyn asesu**

**27.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, gan ystyried yr wybodaeth a gafwyd o dan reoliadau 25 a 26, benderfynu—

(a) a all y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn, neu

(b) nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r asiantaeth wneud ei phenderfyniad o dan baragraff (1) o fewn cyfnod o ddau fis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21.

(3) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu oedi gwneud y penderfyniad o dan baragraff (1)—

(a) pan fo wedi'i bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny oherwydd, er enghraifft, fod oedi wedi bod wrth gael gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd, neu

(b) ar gais y darpar fabwysiadydd.

(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth—

(a) cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r darpar fabwysiadydd o'i phenderfyniad, a

(b) esbonio i'r darpar fabwysiadydd fod rhaid iddo hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad.

(5) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl

gwneud y penderfyniad, hysbysu'r darpar fabwysiadydd o'i phenderfyniad ynghyd â'r rhesymau dros ei phenderfyniad.

*Cam 2 – y penderfyniad asesu*

**Asesiad cam 2**

**28.**—(1) Mae rheoliadau 28 i 30E yn gymwys pan fo'r darpar fabwysiadydd yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadydd y gall fod yn addas i fabwysiadu o dan reoliad 27(4).

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r darpar fabwysiadydd yn hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu fwy na chwe mis ar ôl cael ei hysbysu yn unol â rheoliad 27(4).

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd na chaiff y darpar fabwysiadydd fwrw ymlaen â'r broses asesu onid yw'r broses cyn asesu yn cael ei hailadrodd i'r graddau y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw'n parhau i fod wedi'i fodloni y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

**Cynllun asesu darpar fabwysiadydd**

**29.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys y materion canlynol—

(a) y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn,

(b) unrhyw amserlenni cymwys;

(c) y trefniadau i'r darpar fabwysiadydd gael unrhyw gwnsela ychwanegol neu baratoad ychwanegol ar gyfer mabwysiadu,

(ch) manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r darpar fabwysiadydd wedi cytuno i ymgymryd ag ef,

(d) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd yn y broses asesu,

(dd) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o dan reoliad 30B(5)(c), ac

(e) unrhyw faterion eraill y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn berthnasol.

**Adroddiad darpar fabwysiadydd**

**30.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 4.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig ("adroddiad y darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys—

(a) yr wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a theulu'r darpar fabwysiadydd a bennir yn Rhannau 1 a 3 o Atodlen 4,

(b) crynodeb, wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd,

(c) unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan reoliad 26(d),

(ch) unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn rheoliadau 24 a 25,

(d) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn, ac

(dd) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.

(3) Mewn achos adran 83, rhaid i adroddiad y darpar fabwysiadydd hefyd gynnwys—

(a) enw'r wlad y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu plentyn ohoni ("y wlad tarddiad"),

(b) cadarnhad bod y darpar fabwysiadydd yn bodloni'r gofynion cymhwystra i fabwysiadu plentyn o'r wlad tarddiad,

(c) unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i ofynion y wlad tarddiad, ac

(ch) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn sy'n preswylio'n arferol y tu allan i Ynysoedd Prydain.

(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn cael gwybodaeth o dan baragraff (1) neu wybodaeth arall mewn perthynas ag asesu'r darpar fabwysiadydd sy'n arwain at y farn bod y darpar fabwysiadydd yn annhebygol o gael ei ystyried yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff baratoi adroddiad y darpar fabwysiadydd o dan baragraff (2) er gwaethaf, o bosibl, nad yw'r asiantaeth wedi cael yr holl wybodaeth am y darpar fabwysiadydd a all fod yn ofynnol gan y rheoliad hwn.

(5) Pan yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi paratoi adroddiad y darpar fabwysiadydd, rhaid i'r asiantaeth—

(a) hysbysu'r darpar fabwysiadydd bod cais y darpar fabwysiadydd i'w atgyfeirio at y panel mabwysiadu,

(b) rhoi copi o adroddiad y darpar fabwysiadydd i'r darpar fabwysiadydd,

(c) gwahodd y darpar fabwysiadydd i anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r hysbysiad i law, ac

(ch) esbonio i'r darpar fabwysiadydd y caiff yr asiantaeth fabwysiadu, o dan amgylchiadau eithriadol, estyn yr amserlen y cyfeirir ati yn is-baragraff (c).

(6) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c) (neu, pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn estyn yr amserlen honno, cyn gynted â phosibl ar ôl i sylwadau'r darpar fabwysiadydd ddod i law), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gyflwyno i'r panel mabwysiadu—

(a) adroddiad y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd,

(b) yr adroddiadau ysgrifenedig a'r geirdaon y cyfeirir atynt yn rheoliad 26(b) i (d) (ond yn achos adroddiadau a gafwyd yn unol â rheoliad 26(b), dim ond os yw ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth yn ei chynghori i wneud hynny), ac

(c) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gafwyd gan yr asiantaeth.

(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ofynnol gan y panel mabwysiadu ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

**Swyddogaethau'r panel mabwysiadu**

**30A.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried achos y darpar fabwysiadydd a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a

gwneud argymhelliad i'r asiantaeth o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel mabwysiadu—

(a) rhaid iddo bwyso a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth ac adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 30(6),

(b) caiff ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, ac

(c) rhaid iddo gael y cyngor cyfreithiol y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r achos.

(3) Mewn perthynas ag achos darpar fabwysiadydd y mae adroddiad wedi'i baratoi mewn cysylltiad ag ef yn unol â rheoliad 30(4), rhaid i'r panel mabwysiadu naill ai—

(a) gofyn i'r asiantaeth mabwysiadu baratoi adroddiad darpar fabwysiadydd pellach, gan gwmpasu'r holl faterion a nodir yn rheoliad 30(2), neu

(b) argymell nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(4) Pan fo'r panel mabwysiadu yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu fod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff y panel hefyd ystyried a rhoi cyngor i'r asiantaeth am nifer y plant y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw a'u hanghenion tebygol.

(5) Cyn gwneud unrhyw argymhelliad, rhaid i'r panel mabwysiadu wahodd y darpar fabwysiadydd i fynychu cyfarfod o'r panel.

**Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu**

**30B.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiadydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r broses asesu.

(2) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu oedi gwneud y penderfyniad o dan baragraff (1)—

(a) mewn achos pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na all wneud y penderfyniad o fewn yr amser hwnnw, neu

(b) ar gais y darpar fabwysiadydd.

(3) Ni chaiff unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan baragraff (1).

(4) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu cymeradwyo'r darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi hysbysu'r darpar fabwysiadydd o'i phenderfyniad.

(5) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi—

(a) hysbysu'r darpar fabwysiadydd nad yw'n bwriadu cymeradwyo'r darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn ("dyfarniad o gymhwyster"),

(b) anfon gyda'r hysbysiad hwnnw ei rhesymau ynghyd â chopi o argymhelliad y panel mabwysiadu os yw'r argymhelliad hwnnw yn wahanol, ac

(c) cynghori'r darpar fabwysiadydd y caiff y darpar fabwysiadydd, o fewn 40 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad—

(i) cyflwyno unrhyw sylwadau y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno eu gwneud i'r asiantaeth, neu

(ii) gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r dyfarniad o gymhwyster.

(6) Os nad yw'r darpar fabwysiadydd, o fewn y cyfnod o 40 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c), wedi cyflwyno unrhyw sylwadau nac wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu fwrw ymlaen i wneud ei phenderfyniad a hysbysu'r darpar fabwysiadydd o'i phenderfyniad ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(7) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu, o fewn y cyfnod o 40 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c), yn cael sylwadau gan y darpar fabwysiadydd, caiff atgyfeirio'r achos ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol at y panel mabwysiadu ar gyfer ystyriaeth bellach.

(8) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried unrhyw achos a atgyfeirir ato o dan baragraff (7) a gwneud argymhelliad newydd i'r asiantaeth fabwysiadu o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(9) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud penderfyniad ar yr achos ond—

(a) os yw'r achos wedi'i atgyfeirio i'r panel mabwysiadu o dan baragraff (7), dim ond ar ôl ystyried argymhellion y panel mabwysiadu o dan baragraff (8) a rheoliad 30A y caiff yr asiantaeth wneud y penderfyniad, neu

(b) os yw'r darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r dyfarniad o gymhwyster, dim ond ar ôl ystyried argymhelliad y panel adolygu annibynnol ac argymhelliad y panel mabwysiadu a wnaed o dan reoliad 30A y caiff yr asiantaeth wneud y penderfyniad.

(10) Cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud ei phenderfyniad o dan baragraff (9), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd o'i phenderfyniad, gan ddatgan ei rhesymau dros y penderfyniad hwnnw os yw'n ystyried nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, ac o argymhelliad y panel mabwysiadu o dan baragraff (8), os yw hwn yn wahanol i benderfyniad yr asiantaeth.

(11) Mewn achos pan fo panel adolygu annibynnol wedi gwneud argymhelliad, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (10) at Weinidogion Cymru.

### Gwybodaeth sydd i'w hanfon at y panel adolygu annibynnol

**30C.**—(1) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru fod darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o ddyfarniad o gymhwyster, rhaid i'r asiantaeth, o fewn 10 niwrnod gwaith i gael yr hysbysiad hwnnw, anfon yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) at Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i phennu at ddibenion paragraff (1)—

(a) yr holl ddogfennau a gwybodaeth a gyflwynwyd i'r panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 30,

(b) unrhyw adroddiadau eraill neu wybodaeth arall a gyflwynwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu i'r panel mabwysiadu gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r darpar fabwysiadydd a gafwyd gan yr asiantaeth ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y dogfennau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) i'r panel mabwysiadu, ac

(c) y dogfennau y cyfeirir atynt yn rheoliad 30B(5)(a) a (b).

**Adolygu a therfynu cymeradwyaeth**

**30CH.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu adolygu cymeradwyaeth pob darpar fabwysiadydd yn unol â'r rheoliad hwn, oni bai—

(a) bod plentyn wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd neu fod yr asiantaeth yn ystyried lleoli plentyn gyda'r darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliadau 32 i 34, neu

(b) mewn achos adran 83, fod y darpar fabwysiadydd wedi ymweld â'r plentyn yn y wlad y mae'r plentyn yn preswylio'n arferol ynddi ac wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r mabwysiadu.

(2) Rhaid cynnal adolygiad o fewn blwyddyn ar ôl cael y gymeradwyaeth fan bellaf, ac ar ôl hynny pa bryd bynnag y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.

(3) Wrth ymgymryd ag adolygiad o'r fath, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

(a) gwneud unrhyw ymholiadau a chael unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn adolygu a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn, a

(b) ceisio ac ystyried barn y darpar fabwysiadydd.

(4) Fel rhan o bob adolygiad, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried—

(a) pam nad oes plentyn wedi'i leoli gyda'r darpar fabwysiadydd eto,

(b) unrhyw drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu,

(c) pan ddychwelir plentyn sydd wedi'i leoli gyda'r darpar fabwysiadydd i'r asiantaeth fabwysiadu yn unol ag adran 35(1) neu (2) o'r Ddeddf, y rhesymau dros ddychwelyd y plentyn, ac

(ch) a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

(5) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

(a) nodi'n ysgrifenedig y trefniadau sy'n llywodraethu'r dull y mae'r adolygiad o ddarpar fabwysiadydd i'w gynnal a rhaid iddi ddwyn y trefniadau ysgrifenedig i sylw—

(i) y darpar fabwysiadydd, a

(ii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol;

(b) sicrhau bod—

(i) yr wybodaeth a gafwyd mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd,

(ii) manylion y trafodion mewn unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan yr asiantaeth i ystyried unrhyw agwedd ar yr adolygiad, a

(iii) manylion unrhyw benderfyniad a wnaed yng nghwrs yr adolygiad neu o ganlyniad i'r adolygiad,

yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u rhoi yng nghofnod achos y darpar fabwysiadydd.

(6) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu, ar ddiwedd yr adolygiad, yn ystyried na all y darpar fabwysiadydd fod yn addas mwyach i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi—

(a) paratoi adroddiad ysgrifenedig ("adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys—

(i) yr wybodaeth a gafwyd am y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (3) a (4),

(ii) rhesymau'r asiantaeth, a

(iii) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol,

(b) hysbysu'r darpar fabwysiadydd bod yr achos i'w atgyfeirio at y panel mabwysiadu, ac

(c) rhoi copi o'r adroddiad i'r darpar fabwysiadydd a gwahodd y darpar fabwysiadydd i anfon unrhyw sylwadau at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir yr adroddiad hwnnw i'r darpar fabwysiadydd.

(7) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(c) (neu'n gynharach os daw sylwadau'r darpar fabwysiadydd i law cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd, ynghyd â sylwadau'r darpar fabwysiadydd, os oes rhai, at y panel mabwysiadu.

(8) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ofynnol gan y panel mabwysiadu ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

(9) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried adroddiad adolygu'r darpar fabwysiadydd, sylwadau'r darpar fabwysiadydd, os oes rhai, ac unrhyw wybodaeth arall a roddir iddo gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

(10) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud penderfyniad o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn ac mae rheoliad 30B(2) i (11) yn gymwys mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw gan yr asiantaeth.

### Dyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83

**30D.** Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu mewn achos adran 83 gymeradwyo darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth anfon at Weinidogion Cymru—

(a) cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad ac unrhyw argymhelliad y mae'r asiantaeth yn ei wneud mewn perthynas â nifer y plant y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw, eu hanghenion tebygol a'u cefndir,

(b) yr holl ddogfennau a gwybodaeth a roddwyd i'r panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 30,

(c) cofnod trafodion y panel mabwysiadu, ei argymhelliad a'r rhesymau dros ei argymhelliad,

(ch) os gwnaeth y darpar fabwysiadydd gais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o ddyfarniad o gymhwyster, gofnod trafodion y panel hwnnw, ei argymhelliad a'r rhesymau dros ei argymhelliad, a

(d) unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r achos y mae Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod tramor perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol.

### Cymhwyso Rhan 4 gydag addasiadau i bersonau penodedig

**30DD.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni bod y darpar fabwysiadydd—

(a) yn rhiant maeth a gymeradwywyd, neu

(b) wedi mabwysiadu plentyn, ar unrhyw adeg—

(i) yng Nghymru a Lloegr, ar ôl cael ei asesu'n addas i fabwysiadu yn unol â'r Rheoliadau hyn neu Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005(**16**), neu

(ii) ar ôl cael ei asesu'n addas i fabwysiadu yn unol â Rheoliadau Mabwysiadu ag Elfen Dramor 2005(**17**) ("Rheoliadau 2005").

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae Rhan 4 yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 4A.

(3) Pan fo'r darpar fabwysiadydd yn rhiant maeth a gymeradwywyd ac yn cydsynio, caiff yr asiantaeth fabwysiadu ofyn am gael mynediad at unrhyw gofnodion perthnasol a luniwyd mewn perthynas â'r gymeradwyaeth honno gan y darparwr gwasanaethau maethu.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "rhiant maeth a gymeradwywyd" yw person sydd wedi'i gymeradwyo fel rhiant maeth yn unol â Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(**18**) ond nid yw'n cynnwys person y mae plentyn wedi'i leoli gydag ef o dan reoliad 26 (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad ag C) neu 28 (cymeradwyo dros dro ddarpar fabwysiadydd penodol fel rhiant maeth) o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**19**).

### Atgyfeirio at Gofrestr Fabwysiadu Cymru – darpar fabwysiadwyr

**30E.**—(1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ddarparu manylion am y darpar fabwysiadydd i'r sefydliad sy'n cynnal Cofrestr Fabwysiadu Cymru i'w cofnodi yn y gofrestr cyn gynted â phosibl a beth bynnag dim hwyrach nag un mis ar ôl y penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(a).

(2) Ac eithrio mewn achos adran 83, mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo asiantaeth fabwysiadu, yn unol â rheoliad 30B, wedi penderfynu bod darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn,

(b) pan na fo'r asiantaeth wedi nodi plentyn penodol y mae'n ystyried ei leoli gyda'r darpar fabwysiadydd hwnnw, ac

(c) pan fo'r asiantaeth wedi cael cydsyniad y darpar fabwysiadydd.

### Cynllun paru darpar fabwysiadydd

**31.** Ac eithrio mewn achos adran 83, pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi cymeradwyo darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn yn unol â rheoliad 30B, rhaid i'r asiantaeth baratoi cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun paru'r darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys—

(a) gwybodaeth am ddyletswyddau'r asiantaeth fabwysiadu o dan Rannau 5 a 6,

(b) gwybodaeth am rôl y darpar fabwysiadydd o ran nodi plentyn y byddai'n fabwysiadydd priodol ar ei gyfer,

(c) gwybodaeth am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau (gan gynnwys cwyn) o dan Reoliadau 2014, ac

(ch) unrhyw faterion eraill y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn berthnasol."

---

(**16**) O.S. 2005/389, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3482, O.S. 2017/52 (Cy. 23) a chan ddarpariaethau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**17**) O.S. 2005/392, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3482, O.S. 2009/2563, O.S. 2010/1172, O.S. 2012/1410, O.S. 2013/235, O.S. 2013/985 ac O.S. 2014/2103.

(**18**) O.S. 2018/1333 (Cy. 260).

(**19**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/52 (Cy. 23), O.S. 2017/713 (Cy. 170), O.S. 2018/48 (Cy. 15), O.S. 2018/111 (Cy. 26) ac O.S. 2019/237 (Cy. 56).

**11.** Yn rheoliad 33(4) (swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran lleoliad arfaethedig), yn lle "rheoliad 28" rhodder "rheoliad 30B".

**12.** Yn rheoliad 43 (mynediad at gofnodion achos a datgelu gwybodaeth), ym mharagraff (1)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (f), yn lle'r atalnod llawn rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

"(ff) i ddarparwr gwasanaethau maethu o fewn pymtheng niwrnod gwaith i gais o dan reoliad 7(2)(f) o Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018."

**13.** Yn Atodlen 1—

(a) yn Rhan 3 (gwybodaeth am deulu'r plentyn ac eraill), yn y pennawd cyn paragraff 1, yn lle "naturiol" rhodder "geni";

(b) yn Rhan 5 (manylion ynghylch iechyd rhieni a brodyr a chwiorydd naturiol y plentyn)—

(i) ym mhennawd y Rhan, hepgorer "naturiol" ac ar ôl "rhieni" mewnosoder "geni";

(ii) ym mharagraffau 1, 2 a 3, yn lle "naturiol", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "geni".

**14.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (tramgwyddau a bennir at ddibenion rheoliad 23(3)(b))—

(a) yn y pennawd, yn lle "Rheoliad 23(3)(b)" rhodder "Rheoliad 25(3)(b)",

(b) yn lle paragraffau 2 a 3 (tramgwyddau yn yr Alban) rhodder—

"**2.** Tramgwydd o dan adran 1 (treisio) ac adran 18 (treisio plentyn ifanc) o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Yr Alban) 2009(**20**).

**3.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**21**), ac eithrio mewn achos pan oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni'r tramgwydd.",

(c) yn lle paragraffau 7 ac 8 (tramgwyddau yng Ngogledd Iwerddon) rhodder—

"**7.** Tramgwydd o dan Erthygl 5 (treisio) ac Erthygl 12 (treisio plentyn o dan 13 oed) o Orchymyn Tramgwyddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008(**22**).

**8.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**23**), ac eithrio yn yr achos pan oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed ar adeg cyflawni'r tramgwydd.", a

(d) hepgorer paragraff 10.

**15.** Yn lle Atodlen 4 rhodder—

"ATODLEN 4

Rheoliad 26(a)

(**20**) 2009 dsa 9.
(**21**) 1995 p. 46.
(**22**) O.S. 2008/1769 (G.I. 2).
(**23**) 1968 p. 34.

# RHAN 1

## Gwybodaeth sydd i'w darparu yn ystod cam 1

### Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd

**1.** Enw, rhyw, dyddiad a man geni a chyfeiriad gan gynnwys ardal yr awdurdod lleol.

**2.** Os yw'r darpar fabwysiadydd yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil ac os yw'n gwneud cais ar ei ben ei hun am asesiad o'i addasrwydd i fabwysiadu, y rhesymau dros hyn.

**3.** Manylion unrhyw achosion blaenorol mewn llys teulu y bu'r darpar fabwysiadydd yn cymryd rhan ynddynt.

**4.** Enwau a chyfeiriadau tri chanolwr a fydd yn rhoi geirda personol am y darpar fabwysiadydd, na chaiff mwy nag un ohonynt fod yn berthynas iddo.

**5.** Enw a chyfeiriad ymarferydd meddygol cofrestredig y darpar fabwysiadydd.

**6.** O ran y darpar fabwysiadydd—

(a) os yw'n briod, dyddiad a man y briodas;

(b) os yw wedi ffurfio partneriaeth sifil, dyddiad a man cofrestru'r bartneriaeth honno;

(c) os oes partner ganddo, manylion y berthynas honno.

**7.** Manylion unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas flaenorol.

**8.** A yw'r darpar fabwysiadydd wedi ymgartrefu neu'n preswylio'n arferol mewn rhan o Ynysoedd Prydain ac os yw'n preswylio'n arferol, ers pa bryd.

### Gwybodaeth am gartref etc. y darpar fabwysiadydd

**9.** Manylion aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd (gan gynnwys unrhyw blant i'r darpar fabwysiadydd pa un a ydynt yn preswylio ar yr aelwyd ai peidio).
Rheoliad 26(b)

# RHAN 2

## Adroddiad ar iechyd y darpar fabwysiadydd

**1.** Enw, dyddiad geni, rhyw, pwysau a thaldra.

**2.** Hanes iechyd teulu y rhieni, unrhyw frodyr a chwiorydd a phlant y darpar fabwysiadydd, gyda manylion unrhyw salwch corfforol neu salwch meddwl difrifol ac unrhyw glefyd neu anhwylder etifeddol.

**3.** Anffrwythlondeb neu resymau dros benderfynu peidio â chael plant (os yw'n gymwys).

**4.** Hanes iechyd yn y gorffennol, gan gynnwys manylion unrhyw salwch corfforol neu salwch meddwl difrifol, anabledd, damwain, derbyn i ysbyty neu fynd i adran cleifion allanol, ac ym mhob achos unrhyw driniaeth a roddwyd.

**5.** Hanes obstetrig (os yw'n gymwys).

**6.** Manylion unrhyw salwch presennol, gan gynnwys y driniaeth a'r prognosis.

**7.** Manylion unrhyw yfed alcohol a all beri pryder neu a yw'r darpar fabwysiadydd yn ysmygu neu'n defnyddio cyffuriau sy'n creu arferiad.

**8.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried y gall gynorthwyo'r panel mabwysiadu a'r asiantaeth fabwysiadu.
Rheoliad 30(1)

# RHAN 3

## Gwybodaeth sydd i'w darparu yn ystod cam 2

### Gwybodaeth am y darpar fabwysiadydd

**1.** Llun a disgrifiad corfforol.

**2.** Tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol.

**3.** Cred grefyddol.

**4.** Y berthynas â'r plentyn (os oes un).

**5.** Disgrifiad o bersonoliaeth a diddordebau'r darpar fabwysiadydd.

**6.** Coeden deulu gyda manylion y darpar fabwysiadydd, brodyr a chwiorydd y darpar fabwysiadydd ac unrhyw blant y darpar fabwysiadydd, gyda'u hoedrannau (neu eu hoedrannau pan fuont farw).

**7.** Cronoleg o'r darpar fabwysiadydd ers ei eni.

**8.** Sylwadau'r darpar fabwysiadydd am ei brofiad ei hun o gael ei rianta a sut y mae hyn wedi dylanwadu arno.

**9.** Manylion unrhyw brofiad sydd gan y darpar fabwysiadydd o ofalu am blant (gan gynnwys fel rhiant, llys-riant, rhiant maeth, gwarchodwr plant neu ddarpar fabwysiadydd) ac asesiad o allu'r darpar fabwysiadydd yn hyn o beth.

**10.** Unrhyw wybodaeth arall sy'n dangos sut y mae'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw un arall sy'n byw ar aelwyd y darpar fabwysiadydd yn debygol o ymwneud â phlentyn sydd wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

### Y Teulu Ehangach

**11.** Disgrifiad o deulu ehangach y darpar fabwysiadydd a'u rôl a'u pwysigrwydd i'r darpar fabwysiadydd a'u rôl a'u pwysigrwydd tebygol i blentyn sydd wedi'i leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

### Gwybodaeth am gartref etc. y darpar fabwysiadydd

**12.** Gwybodaeth am gartref y darpar fabwysiadydd a'r gymdogaeth y mae'r darpar fabwysiadydd yn byw ynddi.

**13.** Gwybodaeth am gymuned leol y darpar fabwysiadydd, gan gynnwys i ba raddau y mae'r teulu wedi integreiddio â'i grwpiau cyfoedion, ei gyfeillgarwch a'i rwydweithiau cymdeithasol.

### Addysg a chyflogaeth

**14.** Manylion hanes a chyraeddiadau addysgol y darpar fabwysiadydd a barn y darpar fabwysiadydd am sut y mae hyn wedi dylanwadu arno.

**15.** Manylion hanes cyflogaeth y darpar fabwysiadydd a sylwadau'r darpar fabwysiadydd am sut y mae hyn wedi dylanwadu arno.

**16.** Cyflogaeth bresennol y darpar fabwysiadydd a barn y darpar fabwysiadydd am gyflawni cydbwysedd rhwng cyflogaeth a gofal plant.

**Incwm**

**17.** Manylion incwm a gwariant y darpar fabwysiadydd.

**Gwybodaeth arall**

**18.** Gwybodaeth am allu'r darpar fabwysiadydd i—

(a) darparu ar gyfer anghenion plentyn, yn benodol anghenion emosiynol ac anghenion o ran datblygu ymddygiadol,

(b) rhannu hanes plentyn a materion emosiynol cysylltiedig, ac

(c) deall a chefnogi plentyn drwy deimladau posibl o golled a thrawma.

**19.** O ran y darpar fabwysiadydd—

(a) ei resymau dros ddymuno mabwysiadu plentyn,

(b) ei farn a'i deimladau am fabwysiadu a'i arwyddocâd,

(c) ei farn am ei allu i rianta,

(ch) ei farn am gyfrifoldeb rhiant a'r hyn y mae'n ei olygu,

(d) ei farn am amgylchedd cartref addas i blentyn,

(dd) ei farn am bwysigrwydd a gwerth addysg,

(e) ei farn a'i deimladau am bwysigrwydd magwraeth grefyddol a diwylliannol plentyn, ac

(f) ei farn a'i deimladau am gyswllt rhwng plentyn a'i rieni geni a pherthnasau eraill.

**20.** Barn aelodau eraill o aelwyd y darpar fabwysiadydd a'r teulu ehangach mewn perthynas â mabwysiadu.

**21.** Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai gynorthwyo'r panel mabwysiadu neu'r asiantaeth fabwysiadu.

## ATODLEN 4A

Rheoliad 30DD(2)

Addasu Rhan 4

**1.** Nid yw rheoliad 22 yn gymwys.

**2.** Nid yw rheoliadau 24, 25 a 26 ond yn gymwys pan fo asiantaeth fabwysiadu yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

**3.** Nid yw rheoliadau 27 ac 28 yn gymwys.

**4.** Mae rheoliad 30 yn gymwys fel pe bai—

(a) paragraffau (1) a (4) wedi'u hepgor,

(b) y paragraff canlynol wedi'i roi yn lle paragraff (2)—

"(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig ("adroddiad y darpar fabwysiadydd") sy'n cynnwys—

(a) pan fo'n gymwys, grynodeb wedi'i ysgrifennu gan ymarferydd iechyd cofrestredig yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd,

(b) pan fo'n gymwys, unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth am y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 25,

(c) pan fo'n gymwys, unrhyw wybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan reoliad 26,

(ch) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn, a

(d) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.", ac

(c) "pan fo'n gymwys" wedi'i fewnosod ar ddechrau paragraff (6)(b).

**5.** Nid yw rheoliad 30A(3) yn gymwys.

**6.** Mae rheoliad 30B yn gymwys fel pe bai'r paragraff canlynol wedi'i roi yn lle paragraff (1)—

"(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiadydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu.""

### Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau eraill

**16.** Mae'r diwygiadau i Reoliadau eraill wedi eu nodi yn Atodlen 1.

### Diwygiadau amrywiol

**17.** Mae Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau i destun Cymraeg y Prif Reoliadau(**24**).

### Darpariaeth drosiannol

**18.** Mewn achos pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi dechrau asesu addasrwydd darpar fabwysiadydd yn unol â Rhan 4 o'r Prif Reoliadau, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu barhau â'r asesiad hwnnw fel pe na bai'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

17 Chwefror 2020

(**24**) Mae'r diwygiadau yn Atodlen 2 i'r testun Cymraeg yn cyfateb i'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud i destun Saesneg y Prif Reoliadau gan Orchymyn Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2009 (O.S. 2009/1892) a chan Orchymyn Gorchymyn Trefniadau Plentyn (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2014 (O.S. 2014/852).

## ATODLEN 1

Rheoliad 16

Diwygiadau Canlyniadol i Reoliadau Eraill

**Rheoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005**

**1.**—(1) Mae Rheoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005(**25**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 13 (gofynion sy'n gymwys mewn cysylltiad â chymhwystra ac addasrwydd)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) A couple or a person who wishes to adopt a child habitually resident in a Convention country outside the British Islands must notify the agency that they want to adopt a child, and give the agency any information it may require for the purposes of the pre-assessment process set out in Part 4 of the Agencies Regulations or corresponding Welsh provision.";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle'r geiriau o "in Wales" i "(as the case may be)" rhodder—

"may not proceed with the pre-assessment process referred to in paragraph (1), unless at the date of that notification—", a

(ii) yn is-baragraffau (a) a (b), yn lle "an application", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "a notification" ac yn lle "date of application", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "date of notification".

(3) Yn rheoliad 15 (gweithdrefn mewn cysylltiad â chynnal asesiad), ym mharagraff (1), ar ôl "Part 4 of the Agencies Regulations" mewnosoder "or corresponding Welsh provision".

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005**

**2.** Yn rheoliad 3 (pŵer i godi am gyfleusterau sy'n cael eu darparu sy'n ymwneud â mabwysiadu gydag elfen dramor) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005(**26**), ym mharagraff (5)(b)(ii), yn lle "rheoliad 28" rhodder "rheoliad 30B".

**Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010(**27**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "adroddiad darpar fabwysiadydd", yn lle "rheoliad 26" rhodder "rheoliad 30".

(3) Yn rheoliad 3(a) (penderfyniad cymhwysol – disgrifiad penodedig at ddibenion adran 12(2) o Ddeddf 2002)—

(a) yn is-baragraff (i), yn lle "rheoliad 28(4)" rhodder "rheoliad 30B(5)", a

(b) yn is-baragraff (ii), yn lle "reoliad 30" rhodder "reoliad 30CH(2)".

(4) Yn rheoliad 12 (swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu)—

(**25**) O.S. 2005/392 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/985. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**26**) O.S. 2005/3114 (Cy. 234).
(**27**) O.S. 2010/746 (Cy. 75), a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/1479, O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2017/52 (Cy. 23) ac O.S. 2019/237 (Cy. 56).

(a) ym mharagraff (2)(b)(i), yn lle "rheoliad 26(4), a phan fo'n gymwys, rheoliad 26(5)" rhodder "rheoliad 30(2), a phan fo'n gymwys, reoliad 30(3)",

(b) ym mharagraff (3), yn lle "reoliad 26(4), a phan fo'n gymwys, rheoliad 26(5)" rhodder "reoliad 30(2), a phan fo'n gymwys, rheoliad 30(3)",

(c) ym mharagraff (4), yn lle "rheoliad 26(4), a phan fo'n gymwys rheoliad 26(5), o'r Rheoliadau Asiantaethau yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol gan reoliad 26(4) neu, os yw'n gymwys, rheoliad 26(5)" rhodder "rheoliad 30(4) o'r Rheoliadau Asiantaethau yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol gan reoliad 30(2), a phan fo'n gymwys, rheoliad 30(3)", a

(d) ym mharagraff (5)(a), yn lle "rheoliad 29" rhodder "rheoliad 30C".

### Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014

**4.** Yn rheoliad 9 (swyddogaethau penodedig o dan Ddeddf 2002) o Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014(**28**), ar ôl paragraff (1)(f)(i) mewnosoder—

"(ia) Rhan 4 (dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu o ran darpar fabwysiadydd) i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â phenderfyniad o dan reoliad 27 (penderfyniad cyn asesu) nad yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn;".

## ATODLEN 2

Rheoliad 17

Diwygiadau Amrywiol i'r Prif Reoliadau

### Diwygiadau i'r Prif Reoliadau

**1.** Mae testun Cymraeg y Prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl y diffiniad o "Deddf 1989" mewnosoder—

"ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008(**29**);".

**3.** Yn rheoliad 14 (gofyniad i ddarparu cwnsela etc.)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oes gan dad y plentyn neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac mae'r asiantaeth fabwysiadu yn gwybod pwy yw'r person hwnnw.", a

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl "tad", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008",

(ii) yn is-baragraff (b)(i), yn lle "adran 4" rhodder "adran 4 neu 4ZA", a

(iii) yn is-baragraff (b)(ii)—

(aa) yn lle "preswylio neu orchymyn cyswllt" rhodder "trefniadau plentyn", a

(bb) yn lle "preswyliad, cyswllt" rhodder "gorchmynion trefniadau plentyn".

(**28**) O.S. 2014/1795 (Cy. 188), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**29**) 2008 p. 22.

**4.** Yn rheoliad 17(1)(ch), (d) ac (e) (gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig), ar ôl "tad y plentyn" ac "ei dad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**5.** Yn rheoliad 19(3) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu)—

(a) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) unrhyw berthynas neu berson arwyddocaol arall yr ymgynghorodd yr asiantaeth ag ef o dan reoliad 14(1) gan gynnwys—

(i) unrhyw berson a enwir mewn gorchymyn trefniadau plentyn o dan adran 8 o Ddeddf 1989, fel person y mae'r plentyn i dreulio amser gydag ef neu i gael cyswllt ag ef fel arall, neu

(ii) unrhyw berson y mae gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal) wedi ei wneud o'i blaid,

pan fo'r gorchymyn hwnnw mewn grym yn union cyn yr awdurdodir yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu;";

(b) yn is-baragraff (c), ar ôl "tad y plentyn" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**6.** Yn rheoliad 34(4)(b) (penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu o ran y lleoliad arfaethedig), ar ôl "tad y plentyn," mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008,".

**7.** Yn rheoliad 39(2)(b) (tynnu cydsyniad yn ôl), ar ôl "tad y plentyn" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**8.** Ym mharagraffau 13(a)(i) a 14 o Ran 1 o Atodlen 1 (gwybodaeth am y plentyn), ar ôl "ei dad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**9.** Yn Rhan 3 o Atodlen 1 (gwybodaeth am deulu'r plentyn ac eraill)—

(a) yn y pennawd o flaen paragraff 1, ar ôl "am y plentyn" mewnosoder "neu fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 nad oes ganddi gyfrifoldeb rhiant am y plentyn",

(b) yn lle paragraff 16 rhodder—

"**16.** Os nad yw rhieni'r plentyn yn briod neu'n bartïon mewn partneriaeth sifil, a oes gan y tad neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly, sut y cafwyd ef.",

(c) yn lle paragraff 17 rhodder—

"**17.** Os na wyddys pwy yw tad y plentyn neu ble y mae, neu pwy yw'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008 neu ble y mae, yr wybodaeth amdano neu amdani sy'n hysbys a phwy a'i rhoes, a'r camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw'r rhiant.",

(d) yn y pennawd o flaen paragraff 24, ar ôl "tad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008", ac

(e) ym mharagraff 27, ar ôl "thad y plentyn" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008".

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("y Prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch arfer gan asiantaethau mabwysiadu (awdurdodau lleol a chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig) eu swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliadau newydd 19A ac 20A yn y Prif Reoliadau. Mae rheoliad newydd 19A yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru (o fewn yr amserlen ofynnol) fanylion plant y mae'r asiantaeth fabwysiadu wedi ei hawdurdodi i'w lleoli ar gyfer eu mabwysiadu. Mae rheoliad newydd 20A yn rhestru, at ddibenion y rheoliad hwnnw, y personau hynny sydd wedi eu hawdurdodi i fod yn dyst wrth i rieni a gwarcheidwaid gwblhau y tu allan i Gymru a Lloegr ffurflenni cydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu ac, yn ôl y digwydd, i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol.

Mae mân ddiwygiad hefyd wedi ei wneud i reoliad 20 o'r Prif Reoliadau i egluro nad oes rhaid i asiantaeth fabwysiadu ofyn am benodiad swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS i gael cydsyniad gan riant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal ond pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn preswylio yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi Rhan 4 newydd yn lle'r un bresennol (rheoliadau 21 i 30E) yn y Prif Reoliadau er mwyn darparu ar gyfer proses gymeradwyo dau gam ar gyfer darpar fabwysiadwyr (y broses cyn asesu – cam 1 a'r penderfyniad asesu – cam 2). Mae rheoliadau 21 i 27 newydd (cam 1) yn gymwys pan fo person wedi hysbysu asiantaeth fabwysiadu ei fod am fabwysiadu plentyn a bo'r asiantaeth wedi hysbysu'r person hwnnw ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu mewn cysylltiad ag ef. Mae rheoliadau 28 i 30E newydd (cam 2) yn gymwys pan fo'r darpar fabwysiadydd, yn dilyn penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu, wedi hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu o fewn chwe mis i'r penderfyniad hwnnw ei fod yn dymuno bwrw ymlaen i gam 2 y broses gymeradwyo.

Mae rheoliad 22 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun cam un y darpar fabwysiadydd") sydd i gynnwys gwybodaeth am rôl yr asiantaeth fabwysiadu a'r darpar fabwysiadydd ym mroses cam un.

Mae rheoliad 25 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu gael tystysgrif cofnod troseddol manwl mewn cysylltiad â'r darpar fabwysiadydd ac unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 oed neu drosodd.

Mae rheoliad 26 newydd yn nodi'r wybodaeth cyn asesu arall y mae rhaid i asiantaeth fabwysiadu ei chael ac mae rheoliad 27 newydd yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu benderfynu, yng ngoleuni'r wybodaeth honno, a all y darpar fabwysiadydd fod yn addas i fabwysiadu plentyn. Rhaid i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud o fewn dau fis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21 newydd, ond caiff yr asiantaeth oedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan fo wedi ei bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny neu ar gais y darpar fabwysiadydd.

Mae rheoliad 29 newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â'r darpar fabwysiadydd ("cynllun asesu'r darpar fabwysiadydd") sydd i gynnwys gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer asesu addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn o dan gam 2.

Mae rheoliad newydd 30B yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth hysbysiad y darpar fabwysiadydd ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r broses asesu. Caiff yr asiantaeth oedi gwneud y penderfyniad hwnnw pan fo'r asiantaeth yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na all wneud y penderfyniad hwnnw o fewn yr amser hwnnw neu ar gais y darpar fabwysiadydd.

Mae rheoliad newydd 30DD ac Atodlen newydd 4A yn darparu bod Rhan 4 o'r Prif Reoliadau, mewn achosion penodol, yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn Atodlen 4A. Yr achosion hynny yw pan fo asiantaeth fabwysiadu wedi ei bodloni bod darpar fabwysiadydd yn rhiant maeth a gymeradwywyd, neu ei fod, ar unrhyw adeg, wedi mabwysiadu plentyn o'r blaen yng Nghymru neu Loegr neu dramor (ar ôl cael ei gymeradwyo yn unol â'r Prif Reoliadau neu Reoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005). Yn yr achosion hynny, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benderfynu a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu o fewn pedwar mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth fabwysiadu y darpar fabwysiadydd ei bod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r broses cyn asesu yn unol â rheoliad 21 newydd.

Mae rheoliad newydd 30E yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru (o fewn yr amserlen ofynnol) fanylion darpar fabwysiadwyr a gymeradwywyd.

Mae rheoliad 31 newydd yn darparu bod rhaid i asiantaeth fabwysiadu lunio cynllun ysgrifenedig gan ymgynghori â darpar fabwysiadydd a gymeradwywyd ("cynllun paru'r darpar fabwysiadydd") sydd i gynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau'r asiantaeth mewn perthynas â lleoli ac adolygiadau. Yr eithriad i hyn yw mewn achos adran 83 (pan fo person yn bwriadu dod â phlentyn, neu beri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig o dan amgylchiadau pan fo adran 83 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (cyfyngiadau ar ddod â phlant i'r Deyrnas Unedig) yn gymwys).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol eraill i reoliadau Cymru a Lloegr a nodir yn Atodlen 1 ac sy'n cynnwys diwygiadau i Reoliadau Mabwysiadau ag Elfen Dramor 2005 a mân ddiwygiadau i Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010, sy'n gwneud darpariaeth i'r adolygiad o benderfyniadau penodol gan asiantaethau mabwysiadu a darparwyr gwasanaethau maethu gael ei gynnal gan banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru.

Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau i destun Cymraeg y Prif Reoliadau nad oeddynt wedi eu cyflwyno yn flaenorol gan Orchymyn Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2009 a Gorchymyn Gorchymyn Trefniadau Plentyn (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.